

Newidiadau i'r Ddeddf Diogelu Data

O 25 Mai ymlaen, bydd y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data yn dod i rym a bydd yn disodli'r Ddeddf Diogelu Data bresennol.

Ar hyn o bryd, mae eich manylion cyswllt yn cael eu storio o fewn taenlen Excel na all neb heblaw ysgrifenyddiaeth grwpiau rhanddeiliaid ei gweld. Defnyddir y wybodaeth sydd gennym i wneud y canlynol:

- Rhoi gwybod i randdeiliaid am gyfarfodydd
- Rhoi gwybod i randdeiliaid am ymgynghoriadau a chanlyniadau
- Rhoi gwybod i randdeiliaid am wybodaeth sy'n berthnasol i'w diddordebau penodol

Caiff pob e-bost ei anfon gan ddefnyddio'r opsiwn BCC sy'n golygu na all trydydd parti weld eich manylion. Nid yw'r wybodaeth sydd gennym yn cael ei throsglwyddo i drydydd parti ychwaith heb eich caniatâd ymlaen llaw.

Ar hyn o bryd, nid oes angen i aelodau wneud unrhyw beth, ond er mwyn sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn parhau i gydymffurfio â'r rheoliadau newydd, anogir aelodau Grŵp Cyngori ar Bysgodfeydd Môr Cymru a phob rhanddeiliad i greu cofnod ar Gofrestr Rhanddeiliaid Llywodraeth Cymru.

<https://stakeholderregister.gov.wales/create-your-register-entry>

Ysgrifenyddiaeth
Mai 2018